Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Parcio 2025 – 2026



# Adroddiad Blynyddol
# y Gwasanaethau Parcio
# 2025 - 2026


## Mynegai


| | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3-4 |
| 2. | Nodau ac Amcanion | 4 |
| 3. | Hanes a Gweithrediadau Presennol | 5 |
| 4. | Meysydd Parcio | 5-6 |
| 5. | Parcio Mwy Diogel | 7 |
| 6. | Arloesedd a Thechnoleg | 7 |
| 7. | Ystadegau | 8-9 |
| 8. | Apeliadau a Heriau | 9 |
| 9. | Canolfan Gorfodi Traffig | 10 |
| 10. | Incwm a Gwariant | 10 |
| 11. | Hyfforddiant | 11 |
| 12. | Cydnabyddiaethau | 11 |

## 1 Cyflwyniad

Mae Castell-nedd Port Talbot yn fwrdeistref sirol ac yn un o'r ardaloedd awdurdod unedol yng Nghymru. Castell-nedd Port Talbot yw'r 8fed sir fwyaf poblog yng Nghymru a'r trydedd fwrdeistref sirol fwyaf poblog.

Mae'r fwrdeistref sirol yn ffinio â'r ardaloedd pennaf eraill, sef Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf i'r dwyrain, Powys a Sir Gaerfyrddin i'r gogledd, ac Abertawe i'r gorllewin. Ei phrif drefi yw Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.




Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot oedd y cyntaf i gyflwyno Gorfodi Parcio wedi'i Ddad-droseddoli yng Nghymru o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991. Daeth gorfodi gorchmynion rheoli traffig ffyrdd gan yr awdurdod i rym ar 1 Mehefin 1999.

Ar 31 Mawrth 2008 disodlwyd Deddf Traffig Ffyrdd 1991 gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, a daeth pob awdurdod a oedd yn gorfodi gorchmynion traffig o

dan Ddeddf 1991 yn awtomatig yn Ardaloedd Gorfodi Sifil o dan y Ddeddf Rheoli Traffig newydd.

Mae gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig ar y stryd ac oddi ar y stryd yn dod o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

(Adran 78 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliadau 9 a 10 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apeliadau) (Cymru) 2008.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008.

Mae gofyniad yn y Canllawiau Statudol a roddir yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004 i Awdurdodau Lleol gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau gorfodi parcio.

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth Parcio teg, cyson a thryloyw. Bydd cyhoeddi gwybodaeth ystadegol ac ariannol glir yn helpu i gyflawni hyn. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am lefel y gweithgarwch gorfodi parcio ar gyfer y cyfnod 2025/2026, yn ogystal â’r incwm a’r gwariant a gofnodwyd yn ein cyfrif parcio.

## 2 Nodau ac Amcanion

Prif nod yr Awdurdod yw darparu Gwasanaeth Parcio sy’n cefnogi preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy’r amcanion canlynol:

- Gwella diogelwch ar y ffyrdd a mynediad at wasanaethau i bob defnyddiwr ffyrdd, gan gynnwys cerddwyr
- Cefnogi’r economi leol drwy sicrhau bod cerbydau symud o fannau parcio arhosiad byr yn rheolaidd

## 3 Hanes a Gweithrediadau Presennol

Ym 1999, cynhaliodd yr awdurdod dendr ar gyfer dau gontract: un ar gyfer gorfodi parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd, a'r llall ar gyfer prosesu hysbysiadau. Enillwyd y ddau gontract gan Sureway Parking Services, a newidiodd ei enw yn ystod cyfnod y contract i Vinci Parking Services.

Yn dilyn adolygiad gan aelodau, pan y disgwylir i'r contractau ddod i ben, daeth yr awdurdod â'r ddau gontract yn ôl o fewn ei reolaeth ei hun ym mis Ebrill 2007, gan drosglwyddo staff Vinci i'r awdurdod.

Roedd y Gwasanaethau Parcio wedi'u lleoli'n wreiddiol yng nghanol tref Port Talbot tan fis Awst 2013. Roedd hyn yn caniatáu cyfleuster siop i'r cyhoedd brynu trwyddedau a thalu dirwyon parcio. Prynwyd meddalwedd newydd yn 2013 a oedd yn galluogi preswylwyr i brynu neu adnewyddu trwyddedau parcio ar-lein. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen siop barcio bellach. Mae aelodau'r cyhoedd yn dal i allu cysylltu â'r gwasanaethau parcio gydag unrhyw ymholiadau drwy e-bost, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig.

Mae'r Gwasanaethau Parcio'n gweithredu yn y Ceiau yng Nghanolfan Ynni Baglan ac yn cyflogi 18 aelod o staff. Mae'r gwasanaeth gorfodi'n weithredol saith niwrnod yr wythnos. Mae saith ardal batrolio yn y Fwrdeistref: mae tair ohonynt yng Nghastell-nedd, un ym Mhort Talbot, un yn Sgiwen, un ym Mhontardawe, ac un batrôl symudol sy'n cwmpasu'r ardaloedd gwledig. Yn ogystal â hyn, defnyddir dau gerbyd CCTV symudol i gynorthwyo gyda gorfodi mewn ardaloedd mwy gwledig ac i ateb y galw am bresenoldeb y tu allan i ysgolion.

Bydd y rheini sydd wedi cael Hysbysiad Tâl Cosb yn gallu talu naill ai dros y llinell dalu dros y ffôn, ar-lein neu drwy'r post. Rhaid cyflwyno pob her yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Parcio.

## 4 Meysydd Parcio

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r meysydd parcio yn y Fwrdeistref. Mae opsiwn talu di-arian ar gael ym mhob maes parcio drwy ddarllenwyr cardiau sydd wedi'u gosod yn y peiriannau Talu ac Arddangos, yn ogystal â'r opsiwn o dalu dros y ffôn.

Mae'r meysydd parcio a weithredir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys 2,967 o leoedd, fel y nodir isod.

| Maes Parcio | Lleoliad | Nifer y lleoedd |
|---|---|---|
| Maes Parcio'r Stryd Fawr | Castell-nedd | 37 |
| Maes Parcio Heol Milland | Castell-nedd | 450 |
| Maes Parcio Aml-lawr Castell-nedd | Castell-nedd | 600 |
| Maes Parcio Rosser Street | Castell-nedd | 33 |
| Maes Parcio Herbert Street Isaf | Pontardawe | 19 |
| Maes Parcio Herbert Street Uchaf | Pontardawe | 37 |
| Maes Parcio Ffordd Osgoi Pontardawe | Pontardawe | 44 |
| Maes Parcio Bay View | Port Talbot | 68 |
| Maes Parcio Sgwâr Bethany | Port Talbot | 166 |
| Maes Parcio Glannau'r Harbwr | Port Talbot | 167 |
| Maes Parcio Ocean Way | Port Talbot | 282 |
| Canolfan Ddinesig Port Talbot | Port Talbot | 80 |
| Heol Victoria | Port Talbot | 20 |
| Maes Parcio Aml-lawr Port Talbot | Port Talbot | 705 |
| Maes Parcio Rhodfa Ysgarlad | Port Talbot | 111 |
| Maes Parcio'r Santes Fair | Port Talbot | 41 |
| Maes Parcio Heol yr Orsaf | Port Talbot | 107 |

## 5 Parcio Mwy Diogel

Mae'r Cynllun Parcio Mwy Diogel yn fenter gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu sydd â'r nod o leihau troseddu mewn cyfleusterau parcio.

Mae pymtheg o'r meysydd parcio a reolir gan y Gwasanaethau Parcio wedi ennill statws Parcio Mwy Diogel. Dyfernir Park Mark® i feysydd parcio sydd wedi bodloni gofynion asesiad risg a gynhelir gan yr heddlu.

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio maes parcio Park Mark®, mae'n lleihau'r ofn o droseddu drwy ddangos bod mesurau ar waith i greu amgylchedd mwy diogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a rhestr o feysydd parcio achrededig ar wefan Safer Parking – http://www.saferparking.com.

## 6 Arloesedd a Thechnoleg




Cyflwynwyd Talu dros y Ffôn yn ein meysydd parcio ar lan y môr yn ystod 2021/22 er mwyn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid barcio heb orfod ciwio yn ystod cyfnodau prysur. Cafodd hyn ei ymestyn yn ystod 2022/23 i'n meysydd parcio yng nghanol trefi, ac mae wedi profi'n boblogaidd iawn gyda chwsmeriaid, gyda 75% o'r trafodion yn rhai di-arian.

Mae'r dull talu hwn, ynghyd â'r gallu i dalu ag arian parod neu gerdyn yn ein peiriannau Talu ac Arddangos, yn rhoi tri opsiwn talu i gwsmeriaid wrth ddefnyddio ein meysydd parcio.

## 7 Ystadegau

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26, cafodd 13,909 o Hysbysiadau o Dâl Cosb eu cyflwyno, gyda 9,940 ar y stryd a 3,969 oddi ar y stryd.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad o Hysbysiadau o Dâl Cosb a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

| | |
|---|---|
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb Lefel Uwch a Gyhoeddwyd | 7,015 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb Lefel Is a Gyhoeddwyd | 6,894 |
| Cyfanswm Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Gyhoeddwyd | 13,909 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Dalwyd ar Ostyngiad | 8,381 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Dalwyd heb Ostyngiad | 1,428 |
| Cyfanswm Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Dalwyd | 9,809 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb y Cyflwynwyd Apêl yn eu Herbyn | 3,807 |
| Canran yr Hysbysiadau o Dâl Cosb y Cyflwynwyd Apêl yn eu Herbyn | 28% |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a Ganslwyd o ganlyniad i apêl | 1,800 |
| Canran yr Apeliadau Llwyddiannus | 48% |
| Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a Ganslwyd am resymau eraill | 151 |
| Nifer y Cerbydau a Ataliwyd | Dd/B |
| Nifer y Cerbydau a Symudwyd | Dd/B |

Canslwyd cyfanswm o 1,951 neu 14% o'r holl Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd am amrywiaeth o resymau. Mae pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, gan ystyried yr holl amgylchiadau lliniarol.

Ar adeg adrodd, mae'r 2,149 Hysbysiad Tâl Cosb sy'n weddill mewn gwahanol gamau o'r broses adennill. Felly, mae'r ffigurau'n destun newid.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad o Hysbysiadau Tâl Cosb a chyfanswm yr oriau a ddefnyddiwyd bob mis rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

| MIS | HYSBYSIADAU TÂL COSB A GYHOEDDWYD | ORIAU A DDEFNYDDIWYD |
|---|---|---|
| EBRILL | **1145** | **965** |
| MAI | **1133** | **1014** |
| MEHEFIN | **1208** | **1185** |
| GORFFENNAF | **1230** | **1196** |
| AWST | **1142** | **949** |
| MEDI | **1003** | **871** |
| HYDREF | **1415** | **1020** |
| TACHWEDD | **1227** | **1086** |
| RHAGFYR | **926** | **787** |
| IONAWR | **1084** | **1040** |
| CHWEFROR | **1165** | **949** |
| MAWRTH | **1231** | **903** |
| CYFANSYMIAU | **13909** | **11965** |

## 8 Apeliadau a Heriau

Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i herio Hysbysiad o Dâl Cosb.

Gellir gwneud hyn yn anffurfiol drwy ysgrifennu at CBSCnPT o fewn 28 niwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad o Dâl Cosb, neu'n ffurfiol drwy gyflwyno sylwadau i CBSCnPT ar ôl cyflwyno Hysbysiad i'r Perchennog i'r unigolyn neu'r cwmni sydd wedi'i gofrestru gyda'r DVLA fel perchennog y cerbyd.

Ceir hefyd hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, sef gwasanaeth dyfarnu annibynnol, os nad ydynt yn fodlon â phenderfyniad a wnaed gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ynghylch yr Hysbysiad Tâl Cosb.

Gwnaed 19 apêl i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn ystod 2025/26.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn www.trafficpenaltytribunal.gov.uk.

## 9 Canolfan Gorfodi Traffig

Pan fydd pob ymgais i adennill taliadau sy'n ddyledus wedi methu, bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwneud cais i'r Ganolfan Gorfodi Traffig am Warant Rheoli. Mae hyn yn galluogi casglu'r ddyled heb ei thalu i'r Awdurdod. Caiff y gwarantau hyn eu cyhoeddi wedyn i gwmnïau gorfodi er mwyn adennill y ddyled sy'n weddill heb unrhyw gost i'r Awdurdod.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Ganolfan Gorfodi Traffig yn:

https://courttribunalfinder.service.gov.uk/courts/traffic-enforcement-centre-tec

Mae'r Awdurdod yn edifarhau bod y cam hwn wedi dod yn angenrheidiol er mwyn casglu taliadau sy'n ddyledus; fodd bynnag, dim ond pan fydd pob ymgais arall i gasglu Hysbysiadau o Dâl Cosb sy'n ddyledus wedi methu y caiff ei gymryd. Yn ystod 2025/26, cyhoeddwyd 1,317 o Warantau Rheoli.

## 10 Incwm a Gwariant

| | |
|---|---|
| Incwm Meysydd Parcio | £1,286,827 |
| Gwariant Meysydd Parcio | £960,732 |
| Balans Meysydd Parcio | £326,094 |
| Incwm Gorfodi | £643,229 |
| Gwariant Gorfodi | £1,050,366 |
| Balans Gorfodi | £407,067 |
| Cyfanswm Balans | £80,937 |

11 Hyfforddiant

Cynhelir briffiadau rheolaidd gyda phob Swyddog Gorfodaeth Sifil a Staff Prosesu Hysbysiadau er mwyn sicrhau bod gorfodi a gweinyddu'r Gwasanaethau Parcio ledled y Fwrdeistref yn deg, yn dryloyw ac yn gyson.

Ar y cyd ag adran Hyfforddi a Datblygu'r Awdurdod, rydym wedi datblygu perthynas waith dda gydag Alpha Parking sy'n darparu ein hyfforddiant gorfodaeth sifil. Yn ystod 2025/2026, cyflawnwyd y cymwysterau canlynol:

Enillodd un Swyddog Gorfodaeth Sifil **Wobr Lefel 2 City & Guilds ar gyfer Swyddogion Gorfodi Parcio.**

Enillodd un Swyddog Prosesu Hysbysiadau **Wobr Lefel 2 City & Guilds mewn Prosesu Hysbysiadau Cyhoeddus.**

12 Cydnabyddiaethau

Melanie Davies (Cyfrifon)

Cysylltwch ag Ian Rees, Rheolwr Parcio, drwy e-bost ar i.rees@npt.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn.